Rhan o'r asesiad yw penderfynu a ddylid cynnwys cerflunwaith ar strwythurau pontydd, megis Pont Bendigeidfran Mr Poulton. Fel yn achos pob buddsoddiad a wneir mewn prosiectau seilwaith, mae sicrhau'r budd economaidd gorau posibl yn rhan allweddol o ddatblygiad cynllun a bydd hynny'n wir hefyd yn achos y 3ydd Bont ar draws y Fenai. Bydd ymgynghori a cheisio barn a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol hefyd yn rhan hollbwysig ac allweddol o ddatblygiad y cynllun hwn.

Yr Gymin
Ken

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-841 Include the alternative 3rd Menai Crossing proposal 'Pont Bendigeidfran' – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 30.11.18

Thanks for the providing this information, and the letter from Ken Skates for comment before the next meeting.

Please pass on my thanks to the committee and to Ken Skates for considering the petition further.

I am very pleased to receive this confirmation that the Pont Bendigeidfran proposal will be fully assessed alongside the other original proposals.

The letter also states that consulting and seeking views and support will be a very important and integral part of this scheme development. In light of this, I would like to request that my contact details are passed on to the project team, the consultants mentioned, and the Design Commission for Wales, and that my details are included in any consultation lists, so that I may be kept up to date on progress and remain engaged in this exciting project (should the Petitions Committee now consider this petition completed).

Many thanks,

Benji

Eitem 3.8

P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Vanessa L Dye ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Hydref 2017, ar ôl casglu 225 o lofnodion ar-lein a 234 ar bapur – cyfanswm o 459 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- comisiynu astudiaeth ymchwil i ganfod cyflwr gwelyau'r cyllyll môr a'u hyfywedd fel adnodd naturiol hirdymor, a rhoi moratoriwm ar waith ar gyfer pysgota cyllyll môr hyd nes y gall yr ymchwil adrodd ar ei ganfyddiadau;
- cadarnhau tymor 'caeëdig' ar gyfer cynaeafu cyllyll môr sy'n cyd-fynd â'r tymor silio h.y. mis Mai i fis Medi;
- llunio rheoliadau yn ogystal â'r maint glanio lleiaf o 10cm i gynnwys cwotâu penodol y mae unigolion yn cael eu casglu; a
- chyflwyno deddfwriaeth a rheoliadau i amddiffyn y cyllyll môr ar draeth Llanfairfechan.

"Mae'r cynaeafu ar raddfa fawr o gyllyll môr ar draeth Llanfairfechan wedi bod yn destun pryder i lawer o drigolion a chadwraethwyr ers nifer o flynyddoedd." (Cyf: llythyr at Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet gan Janet Finch Saunders AC 28 Gorffennaf 2017.)

Ar hyn o bryd yr unig reolaeth reoliadol ar gyllyll môr yw bod yn rhaid iddynt fod â maint glanio lleiaf cyfreithiol o 10cm, ac mae gwiriadau sy'n ymwneud â rheoli'r hyn sy'n dod yn rhan o'r gadwyn fwyd. Mae llawer o drigolion yn pryderu am y diffyg ymddangosiadol o weithdrefnau a/neu reoliadau sy'n llywodraethu'r broses o gasglu cyllyll môr yn enwedig o ran dynodi tymor 'caeëdig' yn ystod silio, y cwotâu a ganiateir, a'r angen am gynnal gwaith ymchwil ar y cyllyll môr i ganfod yr effaith ar yr ecosystem a'r amgylchedd lleol.

Ers 2013 nodwyd gan nifer o ffynonellau fod cyllyll môr yn cael eu cynaeafu mewn niferoedd mawr o draeth Llanfairfechan. Mae tystiolaeth i gefnogi'r

honiad hwn wedi cael ei dogfennu ar sawl achlysur yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae cais diweddar ar Hysbysfwrdd Llanfairfechan ar gyfer unrhyw luniau neu fideos o'r rheini sy'n casglu cyllyll môr yn dangos yn glir bod nifer fawr o bobl yn ymwneud â'r gweithgarwch hwn. Mae'r broses o gasglu'r cyllyll môr fel arfer yn digwydd ar ôl llanw uchel.

Gwybodaeth ychwanegol

Dyma rywfaint o gefndir hanesyddol am y mater hwn. Yn 2013 amlygwyd y cynaeafu gan bapur newydd Weekly News gan Tom Davidson pan nodwyd fod 'criw o dros 100 o bobl yn cynaeafu llawer iawn o gyllyll môr...' Roedd pryderon hefyd fod gweithwyr anghyfreithlon yn cael eu hecsbloetio a bod y cyllyll môr yn cael eu pysgota at ddibenion masnachol. Ar y pryd, dywedodd un o'r trigolion ei fod 'wedi gweld golygfeydd tebyg yn ymwneud â nifer cynyddol o gasglwyr yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Mae'r trigolion yn flin oherwydd y nifer fawr o gynaeafwyr gydag ofnau y gallai'r cynefin lleol gael ei ddifrodi yn anadferadwy, gyda channoedd o gyllyll môr yn cael eu casglu oddi ar y traeth yn rheolaidd.'

Er bod yr ofnau o ran bod y casglwyr yn cael eu defnyddio fel rhan o gaethwasiaeth fodern a'r pysgod cregyn yn dod yn rhan o'r gadwyn fwyd wedi cael eu tawelu gan ymdrechion parhaus yr heddlu a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, mae canlyniadau amgylcheddol y broses gyson a systematig o gasglu cyllyll môr yn parhau i fod yn broblem fawr, a all effeithio ar fywyd adar môr ac eraill yn yr ardal, ynghyd ag achosi newidiadau posibl yn y dwysedd o dywod ar y traeth. Mae rhai pryderon ynglŷn â'r tywod yn ansefydlog mewn mannau a gallai pobl sy'n anghyfarwydd â'r traeth yn hawdd fynd i drafferthion e.e. mae rhai o'r casglwyr yn cynaeafu'r cyllyll môr gryn bellter i ffwrdd oddi wrth ddiogelwch y tir.

Mae wedi bod yn eithaf diraddiol a rhwystredig i ddinasyddion cyffredin wyllo'r ysbeilio o adnodd amgylcheddol ac yn cwestiynu pam mae sefydliadau sydd â chylch gwaith i warchod yr amgylchedd yn ymddangos i gael eu llyffetheirio oherwydd y diffyg gweithdrefnau/deddfau priodol. Mae hyn yn syndod o gofio bod traeth Llanfairfechan wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. 2013. Mae'n rhaid bod rheoliadau o fewn y cyrff hyn o

wybodaeth i fanteisio arnynt fel ffynhonnell i ddiogelu'r anghydbwysedd hwn
mewn ecosystem o'r fath?

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

P-05-825 Diogelu ysgyfaint plant rhag llygredd niweidiol tra maent yn yr ysgol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan British Lung Foundation Cymru, ar ôl casglu 159 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru, mae pobl yn anadlu lefelau llygredd aer sy'n anghyfreithlon ac sy'n niweidiol i'w hiechyd. Mae plant ymysg y rheiny sydd fwyaf diamddiffyn rhag llygredd aer. Mae eu hysgyfaint yn dal i dyfu, a gall aer llygredig arafu twf eu hysgyfaint, a golygu eu bod yn fwy tebygol o gael asthma, a phroblemau iechyd eraill, yn nes ymlaen yn eu bywyd.

Yn ôl cais rhyddid gwybodaeth gan y BLF i awdurdodau lleol yn 2017, gwelwyd nad oedd 68 y cant o ymatebwyr (15 o 22) yn monitro llygredd aer o fewn 10 metr o unrhyw un o'u hysgolion.

Yr ydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynnu bod pob Awdurdod Lleol yn monitro ansawdd yr aer y mae plant yn ei anadlu pan fyddant yn yr ysgol, fel bod gan y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau y wybodaeth angenrheidiol i ymateb i llygredd aer.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol de Cymru



Ein cyf/Our ref HB/01054/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

20 Tachwedd 2018

Diolch am eich llythyr ar 2 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-825, sy'n ymwneud â diogelu ysgyfaint plant rhag llygredd niweidiol yn yr ysgol.

Mae gwella ansawdd aer i greu cymunedau iachach ac amgylchedd gwell yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae ein Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb yn adlewyrchu hynny. Ac mae'n un o brif flaenoriaethau fy mhortffolio hefyd. Mae ansawdd aer yr awyr agored wedi gwella ar y cyfan dros y degawdau diwethaf. Mae'r diolch mwyaf am hynny i fesurau rheoli allyriadau llygredd o bwerau, diwydiant gan gynnwys ffermio, trafndiaeth a chartrefi. Ond mae gennym broblemau o hyd sy'n berygl mawr i iechyd y cyhoedd yn rhannau o Gymru. Un broblem arbennig yw'r deunydd gronynnol a ddaw o nifer o ffynonellau gan gynnwys trafndiaeth, diwydiant, cartrefi sy'n llosgi tanwydd solet a ffynonellau o wledydd yn Ewrop. Mae cael aer glân i'w anadlu yn bwysig i bob un ohonom, ond yn arbennig i'r rhai mwyaf sensitif honom, fel plant ifanc iawn, pobl hŷn a'r rheini ag anhwylderau.

Yr haf hwn, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Aer Glân. Amcan y Rhaglen yw lleihau effaith aer brwnt ar iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol, a chydymffurfio hefyd â safonau deddfwriaeth Ewrop a'r DU. Bydd y Rhaglen yn datblygu ac yn trefnu gweithredu ym mhob un o adrannau a sectorau'r Llywodraeth i leihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer. Byddwn yn cyhoeddi manylion gweithgareddau i wella ansawdd aer mewn Cynllun Aer Glân i Gymru gan ymgynghori arno flwyddyn nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 108
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y dywedais yn fy ymateb ichi ar 18 Gorffennaf, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli llygredd aer yn eu hardaloedd fel rhan o'r drefn Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a sefydlwyd o dan Ran IV Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llawr o ganllawiau statudol ynghylch beth y disgwylir i awdurdodau lleol ei wneud o dan y ddyletswydd hon. Mae hynny'n cynnwys monitro ansawdd aer yn eu hardal a pharatoi adroddiad arno bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag awdurdodau lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi creu templed ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol. Defnyddir y templed i roi gwybod i'r cyhoedd am lygredd aer yn eu hardal, yr hyn sy'n cael ei wneud i'w wella a beth allan nhw ei wneud i gyfrannu at hynny.

O ran monitro ansawdd aer, mae gofyn i awdurdodau lleol wneud hynny ar sail ble mae'r risg. Mae disgwyl i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar ble mae aelodau'r cyhoedd yn debygol o anadlu lefelau uchel o lygredd aer. Dylid dewis yr ardaloedd lle mae'r dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan gymunedau lleol, yn awgrymu y bydd pobl yn debygol o ddod i gysylltiad â'r lefelau uchaf o lygredd aer. Mae rhai o'r offer monitro a ddefnyddir gan awdurdodau lleol at ddibenion Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn rhoi gwybodaeth amser real sy'n golygu bod gwybodaeth am lefelau llygredd ar gael ar unwaith a bod pobl felly yn gallu cymryd camau i osgoi'r llygredd. Cewch weld yr wybodaeth honno, a gwybodaeth gan rwydweithiau monitro Cenedlaethol a DU, ar wefan Ansawdd Aer yng Nghymru. Mae'r wefan yn darparu hefyd erfyn rhagweld llygredd aer a chynghor iechyd cyhoeddus perthynol.


Mae'n canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yn cydnabod bod ysgolion, ymhlith lleoedd eraill, yn 'lleoliadau sensitif'. Er enghraifft, trwy dynnu sylw at gyfraniad cludo plant i'r ysgol at lefelau llygredd aer ac at dagfeydd traffig a photensial ysgolion i helpu i addysgu plant a'u rhieni am y pynciau sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer a chwilio am atebion posibl. Fel rhan o'r Cynllun Aer Glân, byddwn yn edrych ar y drefn Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol i weld a oes modd ei gwella.

Fel rhan o'r gwaith i gryfhau'r Rhaglen Aer Glân a pholisi'r Llywodraeth yn y dyfodol, rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ynghyd â Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru, i greu'r cronfeydd priodol o dystiolaeth yng Nghymru. I fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu prosiect i ategu'r dystiolaeth am lygredd yn yr aer â thystiolaeth mwy amserol a mwy lleol lle bo'i hangen, er mwyn inni allu targedu polisiau a gweithgareddau'n well yng Nghymru. Bydd gweithgareddau'n cynnwys asesu ardaloedd lle rhoddwyd blaenoriaeth i wella ansawdd aer gwael yng Nghymru, gan gynnwys lleoliadau sensitif fel ysgolion ac ysbytai, gan gasglu tystiolaeth newydd os oes angen. Gellid defnyddio offer monitro symudol a modelau, os yw hynny'n briodol, i helpu yn hyn o beth. Bydd y gwaith yn ceisio sicrhau mwy o gydweithio rhwng rhanddeiliaid i sbarduno a gwerthuso prosiectau i leihau llygredd aer, gan feithrin diwylliant o atal yn hytrach nag o liniaru.

Mae angen inni dargedu adnoddau'n effeithiol i wella ansawdd aer gwael, a dylid dewis y math o asesiad a'i lefel, gan gynnwys nifer a lleoliad gorsafoedd monitro, yn ôl lefel tebygol y risg. Nid yw unigolion yn tueddu i gerdded o gwmpas amgylcheddau trefol, gan gynnwys tiroedd ysgol, yn ddibaid. Mae pobl yn tueddu i dreulio'u hamser yn teithio neu 'n aros dan do. Gall hynny gynnwys eu cartref, ysgol neu'r gwaith, lle byddan nhw'n dod ar draws ffynonellau llygredd eraill. Mae lefel cysylltiad yr unigolyn â llygredd yn faes sy'n datblygu yn sgil datblygiad offer monitro a synwryddion personol sy'n gallu helpu i gasglu gwybodaeth am batrymau gweithgarwch dyddiol yr unigolyn. Mae Grŵp Arbenigwyr Ansawdd yr Aer wedi rhoi cynghor gwyddonol annibynnol i Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio synwryddion llygredd aer, eu gwendidau a'u hargymhellion a lle byddai neu na fyddai'n briodol eu defnyddio¹. Rwy'n croesawu cynigion arloesol ar gyfer asesu ansawdd aer yn well ar draws Cymru ac wrth i dechnolegau esblygu, daw offer newydd i'n helpu i ddeall ansawdd aer yn well. Byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau o'r fath a byddwn yn croesawu cyfraniad rhanddeiliaid i fanteisio ar botensial cyfleoedd i ddatblygu.

¹ <https://uk-air.defra.gov.uk/library/aqeg/pollution-sensors.php>

Rwy'n croesawu'ch diddordeb yn ein hymdrechion i wella ansawdd aer Cymru. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth a'r cynigion a gawn gan Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint wrth inni ddatblygu'n Cynllun Aer Glân i Gymru.



Hannah Blythyn AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment

P-05-844 Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot ar unwaith

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Eynon, ar ôl casglu 56 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar i Lywodraeth Cymru drefnu adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ardal Castell-nedd Port Talbot, a hynny ar unwaith. Mae angen newidiadau brys er mwyn adolygu'r canllawiau ar gyfer ardaloedd gwledig, yn benodol ynghylch Adfywio Cymoedd Cymru. Fel trigolion lleol, nid ydym yn teimlo bod digon o fesurau ar waith i gadw ein cymunedau rhag datblygiadau masnachol negyddol sy'n effeithio'n ddifrifol iawn ar ardaloedd preswyl. Mae angen newid i orfodi polisiau Teithio Llesol, diogelu anheddau preswyl a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni ddarparwyd yn ddigonol ar gyfer ein cymuned ym Mlaengwrach yn y Cynllun Datblygu Lleol a gofynnwn i gamau gael eu cymryd yn gynt na'r adolygiad a drefnwyd ar gyfer 2020. Gofynnwn am y cyfle, o leiaf, i allu ychwanegu eithriadau a chanllawiau i'r Cynllun Datblygu Lleol ynghylch datblygiadau sy'n arwain at gryn lawer o draffig, megis gorsafoedd petrol a bwytaï min ffordd.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-844
Ein cyf/Our ref LG/02138/18

David John Rowlands AM
Chair - Petitions committee.
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

Dear David

14 November 2018

Thank you for your letter of 31 October, regarding petition P-05-844 'Immediate review of the Neath Port Talbot LDP'.

The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (section 69) states a Local Planning Authority (LPA) must carry out a review of their Local Development Plan (LDP) at such times as the Welsh Ministers prescribe. This requirement is taken forward by Regulation 41 of the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (as amended), which states a LPA must commence a full review of their LDP at least every 4 years from the date of adoption. For the Neath Port Talbot LDP the 4 year review date is January 2020.

A LPA can review its adopted LDP at any time before the statutory review date if it considers an early review is appropriate. This is a matter for each LPA to determine. Any person can request a LPA to review their plan and should set out their reasons and evidence in justification of the review. Such a request can then be considered by the Council with locally elected members determining whether the LDP should be reviewed, or not. There is nothing to prevent such requests being made or an adopted LDP being reviewed early.

The decision to review the Neath Port Talbot LDP is for the Council to determine. It is not appropriate for the Welsh Ministers to intervene in the ability of locally elected members to consider whether their adopted LDP should be reviewed, or not, in advance of the 4 year statutory review period.

Regards
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 112

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-844 Immediate review of the Neath Port Talbot LDP – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 04.12.18

Dear David,

The response from the Cabinet Secretary, Lesley Griffiths, serves to highlight my points that as a member of the public calling to make changes to a Local Development Plan, the only course of action is to appeal to our Local Planning Authority. In our case, on appealing to correct information in our LDP, we were told in no uncertain terms that this was not possible between the 4 year review periods – even with the full support of our locally elected Ward Member. For us, this meant that a questionably dangerous development was permitted to be built inside our settlement area because the information in the LDP to prevent this was missing. Unfortunately this omission was only found by residents on reviewing the development application.

This petition calls for a mechanism to be implemented to allow for ‘immediate’ amendments to be made to a Local Development Plan where omissions or errors have been discovered by affected residents. Currently, it could be argued that where such amendments would be detrimental to the intentions of a Planning Authority, such requests are easily denied with no official recourse or further discussion. Our Local Planning Authorities wield almost total power in planning matters and use these Local Development Plans as the ‘rulebook’ to guide their decision making process. The LDP is so important that a 4 year window is simply not sufficient, especially where planning decisions are made in just weeks after an application is submitted.

A mechanism to allow for immediate changes is desperately needed, which should be officially logged and considered by a LPA on **submission by a Ward Member**. As it stands, where a Planning Authority refuses to review and correct information in a Local Development Plan, affected residents are left powerless in the face of potentially dozens of planning decisions between reviews.

We need to enable more powers for affected residents to take part in what happens in their communities. Today, we can effect very little in the face of large scale development, and as a nation we risk losing our culture and heritage in smaller villages and towns to make way for such constructions as fast food drive through restaurants. With this mechanism for change, we can ensure that residents can protect their homes and communities, at the same time as working with the Local

Planning Authorities to ensure that new developments are appropriate and benefit everyone.

P-05-845 Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Eynon, ar ôl casglu 56 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar i Lywodraeth Cymru orfodi gwell bolisiau cod ymddygiad i gyflogeion awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae swyddogion awdurdod cynllunio yn cael rhedeg cwmnïau ymgynghori cynllunio preifat a chyflawni eu rolau cyhoeddus ar yr un pryd. Nid oes adnodd ar gael y gellir ei fuddsoddi er mwyn plismona'r cwmnïau preifat hyn, lle y'u datgenir yn y ffurflenni angenrheidiol, er atal twyll a llygredd.

A chymryd swyddogion cynllunio fel enghraifft, mae potensial y gallai rhedeg busnesau ymgynghori preifat 'yn ddistaw bach' hwyluso llygredd, gan fod llawer o fathau, yn gyffredinol yn ymwneud â chamddefnyddio swydd. Mae angen rhoi terfyn ar yr arfer hwn ar unwaith a rhaid diwygio'r cyfansoddiadau fel na cheir ymddwyn yn y modd hwn mwyach. Rydym yn galw am fwy o atebolrwydd a thryloywder gan ein hawdurdodau lleol, a rhaid pennu safonau ymddygiad mewn swyddogaethau cyhoeddus o'r fath a fyddai'n uwch na rhai'r sector preifat, lle mae hyn yn hynod annerbyniol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

Alun Davies AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public
Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-845
Ein cyf/Our ref ARD/00761/18

David J Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPetitions.cynulliad.cymru

15 Tachwedd 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am lythyr 31 Hydref 2018 yn gofyn am fy marn am ohebiaeth bellach yn ymwneud â deiseb 'P-05-845 - Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol'.

Yn eu llythyr at y Pwyllgor, mae'r deisebwyr yn cysylltu'r ffaith bod cyflogeion awdurdod lleol yn gwneud gwaith hunangyflogedig y tu allan i ardal awdurdod, â rhagdybiaeth o wrthdaro buddiannau. Nid wyf yn cytuno â'r farn hon, nac ychwaith â chynnig y deisebwyr bod angen deddfu i gyflogeion awdurdod lleol gael eu gwahardd rhag gwneud gwaith hunangyflogedig yn eu meysydd proffesiynol y tu allan i gyflogaeth y sector cyhoeddus. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn arwain at wrthdaro buddiannau a beth bynnag, mae gan yr awdurdodau lleol system ar waith eisoes ar gyfer cofnodi ac olrhain gwrthdaro buddiannau.

Cod generig sy'n gymwys ar draws yr ystod o gyflogeion proffesiynol a chyflogeion eraill llywodraeth leol (ac eithrio athrawon a diffoddwyr tân) yw'r cod ymddygiad i gyflogeion. Gan hynny, nid yw'n briodol nac yn ymarferol ceisio llywio ei darpariaethau i ymdrin ag amgylchiadau grwpiau penodol o gyflogeion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 116
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol, nid Gweinidogion Cymru, yw bod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a chymryd camau priodol i'w lliniaru neu eu dileu. Yn achos materion cynllunio, gallai penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod fod yn destun adolygiad barnwrol pe gellid profi bod y ffordd yr ymdriniodd awdurdod â'r mater yn ddiffygiol yn gyfreithiol. Er mai mater i'r deisebwyr fyddai cyflwyno eu hachos i gyfiawnhau adolygiad o'r fath, gallai hyn gynnwys honiadau o wrthdaro buddiannau gan aelodau etholedig neu gyflogeion.

Rwyf yn dal yn fodlon bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer datgelu a chofrestru gwrthdaro buddiannau trwy'r priod godau ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig neu gyflogeion. Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus bwerau i ymchwilio i fethiant honedig gan aelodau i ddatgelu buddiannau perthnasol. Mae'r cod ymddygiad i gyflogeion yn rhan o delerau penodi neu amodau cyflogaeth cyflogai. Gan hynny, mae unrhyw fethiant honedig i gydymffurfio â gofyniad i ddatgelu buddiant perthnasol yn fater disgyblu posibl i'r awdurdod lleol ei ystyried fel y cyflogwr.

Nid oes gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru unrhyw rôl mewn perthynas â materion cyflogaeth o'r fath. Er hynny, pe bai camweinyddu wedi bod ar ran yr awdurdod wrth ddod i benderfyniad o ganlyniad i fethiant i gydymffurfio â'r cod, byddai'n agored i'r parti yr effeithir arno gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon am yr agwedd honno. Nodaf fod y gwrthwynebwyr eisoes wedi achub y cyfle i herio priodoldeb y ffordd yr ymdriniodd y Cyngor â'r cais cynllunio sydd wedi achosi'r ddeiseb trwy atgyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon, sydd wedi gwrthod ymchwilio. Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a oes unrhyw deilyngdod yn y gŵyn. Pe bai unrhyw dystiolaeth o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth mewn perthynas ag ymdrin â mater cynllunio (neu unrhyw fater arall), yna materion troseddol i'r heddlu ymchwilio iddynt fyddai'r rhain, wrth gwrs.

Mae'r deisebwyr yn cyfeirio at ddiffyg strategaeth swyddogol i'r awdurdodau lleol yng Nghymru atal twyll a llygredigaeth, tebyg i 'The Local Government Counter Fraud and Corruption Strategy 2016-19', a gyhoeddwyd yn Lloegr. Rhaid i bob awdurdod lleol feddu ar gyfansoddiad sy'n nodi'r rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau ariannol i'r awdurdod sicrhau llywodraethu da a stiwardiaeth effeithiol ar arian cyhoeddus.

Mae'r cyfansoddiad enghreifftiol yng Nghymru'n cynnwys trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredigaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad ar y prif swyddog cyllid i ddatblygu, cynnal ac adolygu polisi atal twyll ac atal llygredigaeth. Cyfrifoldeb yr holl brif swyddogion yw hyrwyddo'r polisi atal twyll ac atal llygredigaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth a sicrhau bod unrhyw afreoleidd-dra a amheuir yn cael ei hysbysu i'r prif archwilydd mewnol.

Cafodd Strategaeth Atal Twyll a Llygredigaeth Llywodraeth Leol ei datblygu trwy bartneriaeth rhwng Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Cymdeithas Llywodraeth Leol a Llywodraeth y DU. Er mai cyhoeddiad i Loegr yw hwn, mae'n addas ar gyfer cynulleidfa eang ac mae nifer o awdurdodau yng Nghymru wedi'i ddefnyddio wrth gynhyrchu eu strategaethau atal twyll a llygredigaeth eu hunain. Mae CIPFA hefyd yn cynhyrchu nifer o ganllawiau ac offer eraill yn y maes hwn. Mae'n ofynnol i brif swyddogion cyllid yr awdurdodau lleol feddu ar gymwysterau proffesiynol priodol a byddai disgwyl iddynt fod yn ymwybodol o'r ffynonellau canllawiau hyn.

Mae dogfen strategaeth 2016 a'r awdurdodau'n pwysleisio rôl aelodau etholedig ac uwch swyddogion wrth greu diwylliant o beidio â goddef twyll a llygredigaeth. Mae fframwaith cyfredol, felly, ar gyfer llywodraethu lleol sy'n cynnwys ystyried materion atal twyll a llygredigaeth a chyfoeth o ganllawiau proffesiynol. Nid wyf yn argyhoeddedig, felly, y byddai strategaeth gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw strategaeth genedlaethol i Gymru a arweinir gan sefydliad arall yn ychwanegu gwerth at y sefyllfa bresennol.

Cofion,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

Alun Davies AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services



RTPI Cymru
Royal Town Planning Institute
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

David Rowlands AM
Chair
Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Royal Town Planning Institute
Cymru (RTPI Cymru)
PO Box 2465
Cardiff
CF23 0DS
Tel +44 (0)29 2047 3923
email roisin.willmott@rtpi.org.uk
Website: www.rtpi.org.uk/wales

SeneddPetitions@Assembly.Wales

15 November 2018

Dear Chair

Petition P-05-845 End Conflict of Interest in Local Authority Constitution

Thank you for your letter dated 2 November 2018 regarding the above Petition which your Committee is considering and for the opportunity to convey our views.

The Royal Town Planning Institute (RTPI) is the largest professional institute for planners in Europe, representing some 25,000 spatial planners. RTPI Cymru represents the RTPI in Wales, with 1,100 members in the public, private, academic and third sectors. The Institute seeks to advance the science and art of spatial planning for the benefit of the public.

We take the matter of the conduct of our members seriously and regard professional standards as a core function. This is essential in maintaining the public trust in the planning system. Our Members are obliged to adhere to the RTPI Code of Professional Conduct which is available on our website: https://i.emlfiles4.com/cmpdoc/6/2/1/9/5/1/files/59082_rtpi-code-of-professional-conduct-feb_2016_new-cover-2017.pdf . We have also published a practice advice note on ethics https://www.rtpi.org.uk/media/2675025/ethics_update_2017.pdf and have an online learning module to reinforce and support our Members to deal with ethical issues, such as conflicts of interest.

The RTPI's Code of Conduct is clear about conflicts of interest, which is relevant to this petition. It states: "Members must take all reasonable precautions to ensure that no conflict of duty arises between the interests of one employer, client or business associate and the interests of another." Our Practice advice clearly states: "You should not undertake any private planning work in the area where you are in the position to recommend the making of any decision materially affecting the development or use of land."

We are proactive in embedding ethics and the Code of Professional Conduct throughout our members' careers, including as part of the Assessment of Professional Competence (APC) process to become Chartered Planners, as well as the advice and training support provided through members' careers.

I note that the petitioner has referred to contacting the RTPI to make a complaint, however we have no record of any contact from the Group. We have a robust complaints and

investigation process in place, which can be viewed at:
<https://www.rtpi.org.uk/membership/professional-standards/how-to-make-a-complaint-about-rtpi-members/>. We take all complaints seriously.

I hope this provides the Committee with assurance that the RTPI's Code of Professional Conduct is robust and is supported by an effective complaints procedure. I would be happy to address any specific questions that you or the Committee have.

Yours sincerely,



Dr Roisin Willmott OBE FRTPi
Director
RTPI Cymru

P-05-845 End Conflict of Interest in Local Authority Constitution – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 04.12.18

Dear David,

I must convey how disappointed I am with the reply from the Cabinet Secretary, Alun Davies, on the matter of this petition topic. What I am proposing, on behalf of the public, is simply to introduce measures to **prevent** conflicts of interest from occurring when those holding full time public roles are also working in private firms. Such conflicts leave the system open to abuse, such as ‘revolving door’ corruption which can be extremely hard to prove after the fact. This is not tolerated in the private sector and as I have previously stated, we demand higher standards from those charged with serving the public interest.

While I am aware that there are provisions in local authorities to report and record any conflicts of interest, what disturbs me is the lack of any legislation following on from this. Mr Davies points out that members of the public can report breaches of this code to the Public Ombudsman for Wales, or even to the police in more criminal matters. Even, should members of the public be able to conduct a full investigation to find the evidence needed in order to approach an authority, the Ombudsman is flooded with such complaints and often cannot investigate further due to a lack of resource.

In effect, in order to facilitate extra private earnings for those officers and councillors already in well paid full time public roles, public money and resource is being spent on recording and monitoring these conflicts of interest with little power or legislation to investigate such incidences further. While it is reassuring to know that the Welsh Authorities use the English Government counter fraud and corruption strategies as guidelines, again I point out that there is no legislation from our own Welsh Assembly to enforce anything. In the case of the Planning Authority, this is a major flaw in the system. Surely, by disallowing these conflicts of interest to exist, we are not only protecting the public but also those in public roles, especially in Planning, who are unelected and wield a vast amount of power? Such officials can be called in to a Judicial Review, but only in a 6 week window which favours professionals such as property developers rather than disorganised and ill-informed members of the public. Once such a window has passed, there is no authority that will step in or investigate any complaints, if Council Leaders refuse such requests.

I would argue that allowing conflicts of interest to continue is detrimental to the reputation of our local authorities, facilitates the potential for fraud and corruption

in key roles, increases the workload of the Public Services Ombudsman and Audit Committees and uses public resources to track and monitor said conflicts. Running a private firm in the same professional field as in a public role cannot avoid such conflicts, utilising the very same 'inside' knowledge, contacts and training. This surely also serves to undercut other professional firms who do not have this edge, regardless of geographical boundaries.

I urge you, the Welsh Government, to consider this issue on our behalf and hope that you will conclude that the arguments we present for a much needed change, outweigh the benefits of keeping the 'status quo'. Again, I feel I need to point out that I am looking to amend this generic code of conduct policy to prevent conflicts of interest from taking place. Mr Davies seems unsure of whether conflicts of interest even exist despite also defending the system that records them:

"There is no evidence to suggest this creates a conflict of interest and in any case, local authorities already have in place a system for recording and tracking conflicts of interest."

For interest, I enclose further media articles from the Daily Telegraph on planning officers 'for hire' which highlight how controversial, albeit legal, this subject is.

Yours sincerely
Emma Eynon

[T](#) | [Privacy and cookies](#) | [Jobs](#) | [Dating](#) | [Offers](#) | [Shop](#) | [Puzzles](#) | [Investor](#)

The Telegraph

[Home](#) | [Video](#) | [News](#) | [World](#) | [Sport](#) | [Business](#) | [Money](#) | [Comment](#) | [Culture](#) | [Travel](#) | [Life](#) | [Wo](#)
[Politics](#) | [Investigations](#) | [Obits](#) | [Education](#) | [Science](#) | [Earth](#) | [Weather](#) | [Health](#) | [Royal](#) | [Celebri](#)

HOME » NEWS » UK NEWS

Councillors for hire who give firms planning advice

Telegraph investigation: Councillors across England are offering themselves for hire to property developers who are hoping to take advantage of relaxed planning laws which come into effect within weeks.

By Holly Watt, Claire Newell and Ben Bryant
10:00PM GMT 10 Mar 2013

Councillors across the country are offering themselves for hire to property developers who are hoping to take advantage of relaxed planning laws which come into effect within weeks, a Daily Telegraph investigation reveals on Monday.

Local government politicians are trading on their inside knowledge of the planning system to receive fees of up to £20,000 for advice on how to get developments approved, it can be disclosed.

Despite apparently creating the potential for a conflict of interest, it is not illegal for councillors to work as paid consultants. Councils are expected to face an increase in applications for building when new planning laws take effect at the end of this month.

Under the changes, local authorities without a plan for development in their area will be expected to approve any application which can be said to be a "sustainable development", a term that has alarmed conservationists because it is open to wide interpretation.

<https://www.telegraph.co.uk/news/uknews/9923680/Moonlighting-planning-officers-help-builders-exploit-vulnerable-councils.html>

[T](#) | [Privacy and cookies](#) | [Jobs](#) | [Dating](#) | [Offers](#) | [Shop](#) | [Puzzles](#) | [Investor](#)


The Telegraph


[Home](#) | [Video](#) | [News](#) | [World](#) | [Sport](#) | [Business](#) | [Money](#) | [Comment](#) | [Culture](#) | [Travel](#) | [Life](#) | [Wo](#)
[Politics](#) | [Investigations](#) | [Obits](#) | [Education](#) | [Science](#) | [Earth](#) | [Weather](#) | [Health](#) | [Royal](#) | [Celebri](#)

HOME » NEWS » UK NEWS

Moonlighting planning officers help builders exploit 'vulnerable' councils

Planning officers are offering to draw up applications for developers who can take advantage of "vulnerable" councils in the wake of the relaxation of building laws, The Telegraph can disclose.

 *We're quite unusual as a planning consultancy company, in that we employ on a part-time basis,*



[T](#) | [Privacy and cookies](#) | [Jobs](#) | [Dating](#) | [Offers](#) | [Shop](#) | [Puzzles](#) | [Investor](#)

The Telegraph

[Home](#) | [Video](#) | [News](#) | [World](#) | [Sport](#) | [Business](#) | [Money](#) | [Comment](#) | [Culture](#) | [Travel](#) | [Life](#) | [Wo](#)
[Politics](#) | [Investigations](#) | [Obits](#) | [Education](#) | [Science](#) | [Earth](#) | [Weather](#) | [Health](#) | [Royal](#) | [Celebri](#)

HOME » NEWS » INVESTIGATIONS

Telegraph undercover planning investigation: a summary

A guide to the Telegraph's undercover investigation into planning reforms, which exposed how councillors across England were offering to help people take advantage of relaxed planning laws

 Graham Brown Councillor, East Devon: 'I'm low profile, have access to all the right people for the right clients. [I] don't come cheap'

9:00AM GMT 04 Nov 2013

The Telegraph exposed how councillors across England were **offering themselves for hire to property developers** who were hoping to take advantage of a relaxation in planning laws.

An undercover investigation published in March 2013 showed how councillors traded on inside knowledge of the planning system **to receive fees of up to £20,000** for advice on how to get developments approved.

By Claire Newell, Holly Watt, Ben Bryant and Christopher Hope
10:44PM GMT 11 Mar 2013

The public sector officials, who work full-time for councils, charge thousands of pounds in consultancy fees to assist companies, including supermarkets and property companies, with planning applications.

A consultancy in Cambridge advised undercover reporters that the planning officials could explain the complex planning system to private clients while still working for local authorities.